Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

200 1822 - 2022

# Rhaglen Cyflymydd Ymchwil ac Effaith

# (RIAP)

INSPIRE

## Rhaglen Cyflymydd Ymchwil ac Effaith y Drindod Dewi Sant (RIAP)

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Rhaglen Cyflymydd Ymchwil ac Effaith (RIAP) i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. Gyda chefnogaeth Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru, rhedir y rhaglen gan INSPIRE ac mae'n cynnwys yr with llinyn canlynol:

| Cynllun ymatebol RIAP | |
|---|---|
| **Dyfarniadau Datblygu Ymchwil (llwybr sefydledig)** | Mae Dyfarniadau Datblygu Ymchwil wedi'u llunio i ddarparu cymorth hyblyg i staff academaidd ddatblygu ceisiadau o ansawdd da am gyllid ymchwil. Prif ddiben y cronfeydd yw darparu cyfnodau estynedig o amser o'r gwaith i ymchwilio, a hynny fel arfer am hyd at dri mis yn llawn amser i baratoi ceisiadau grant. Hefyd, mae cymorth datblygu cais ar gael i ymgeiswyr. |
| **Dyfarniadau Datblygu Ymchwil Gyrfa Gynnar** | Bydd y dyfarniadau hyn yn darparu cymorth hyblyg er mwyn i staff academaidd ddatblygu allbynnau ymchwil o ansawdd uchel, ac i ymgysylltu â gweithgareddau eraill a fydd yn datblygu eu proffil ymchwil a'u gallu i wneud cais am gyllid ymchwil allanol. |
| **Dyfarniadau Mynychu Cynhadledd (llwybr sefydledig)** | Diben Dyfarniadau Mynychu Cynhadledd yw datblygu rhwydweithiau cydweithredol staff ymchwil y Brifysgol a chynyddu nifer ac ansawdd y ceisiadau grant a gyflwynir. Er mwyn cyflawni'r dibenion hyn, gwahoddir ceisiadau gan staff academaidd sy'n cyflwyno papur yn seiliedig ar raglen ymchwil barhaus. |
| **Dyfarniadau Mynychu Cynhadledd Gyrfa Gynnar** | Bydd y dyfarniadau hyn yn darparu cyfleoedd i staff Ymchwil Gyrfa Gynnar adeiladu eu rhwydweithiau academaidd a dysgu'n uniongyrchol am ddatblygiadau ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn y meysydd. Yn wahanol i'r llwybr sefydledig, ni fydd angen i ymgeiswyr ddarparu papur, ond dylent allu arddangos cyfle clir i ddatblygu drwy fynychu'r digwyddiad. |
| **Cyfrif Cyflymydd Effaith** | Bwriad Cyfrifon Cyflymydd Effaith yw cefnogi gweithgareddau sy'n cryfhau perthynas y Brifysgol â phartneriaid allanol strategol, manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer effaith ymchwil mewn unrhyw sector, a sbarduno rhagolygon masnacheiddio yn deillio o ymchwil y Brifysgol. Mae'r dyfarniadau'n ymrwymiad gan y Brifysgol i gefnogi staff i gychwyn cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu a chynhyrchu effaith o ansawdd uchel. |
| **Cronfa Cydweithredu Rhyngwladol** | Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun Taith, sy'n darparu cymorth pwysig ar gyfer datblygu gallu cydweithredol rhyngwladol ym maes ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Mae'r Dyfarniad Cydweithredu Rhyngwladol ar gael i gyd-gyllido gweithgarwch dan Lwybr 1, Symudedd Ymchwilwyr, a fydd yn cynorthwyo symudedd ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa ac ymchwilwyr sefydledig, dramor ac yn y wlad hon. |
| **Cronfa Sgiliau Ymchwilwyr** | Ochr yn ochr â chyfleoedd datblygu ymchwilwyr craidd wedi'u mewnosod (yn dod yn fuan), mae'r Gronfa Sgiliau Ymchwilwyr yn darparu cymorth hyblyg ac ymatebol ar gyfer cyfleoedd mwy arbenigol neu ad hoc. Gallai'r rhain gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i, cyllid i gefnogi cyngor gyrfa ymchwil-benodol, hyfforddiant arweinyddiaeth ymchwil, meddalwedd arbenigol neu hyfforddiant arall, a chefnogi digwyddiadau ymchwil. |
| **Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu** | Mae'r Llysgennad Effaith ac Ymgysylltu, yn rôl drawsadrannol newydd a fydd yn uno 'ysgogwyr newid' y Brifysgol yn ffurfiol ag INSPIRE. Ym mhob blwyddyn academaidd 22/23. 23/24 a 24/25, bydd hyd at ugain aelod o staff yn cael eu penodi i rôl llysgennad dwy flynedd, rôl strategol a fydd yn ategu un o bedair isadran weithredu INSPIRE. |

## 1. Dyfarniadau Datblygu Ymchwil (llwybr sefydledig).

Mae Dyfarniadau Datblygu Ymchwil wedi'u llunio i ddarparu cymorth hyblyg i staff academaidd ddatblygu ceisiadau o ansawdd da am gyllid ymchwil. Er y bydd natur y cymorth a ddarperir yn cael ei ystyried yn ôl rhinweddau'r ceisiadau, prif ddiben y cronfeydd yw darparu cyfnodau estynedig o absenoldeb i wneud gwaith ymchwil, fel arfer tri mis yn amser llawn neu gyfnod pro rata yn rhan-amser.

**Amcanion y Dyfarniadau Datblygu Ymchwil yw:**

- Cynyddu profiad a gallu staff i wneud cais am gyllid ymchwil cystadleuol, gan ganolbwyntio ar ffynonellau UKRI (Cynghorau Ymchwil ac Innovate UK), Horizon Europe a Grantiau Clyfar Llywodraeth Cymru, er y bydd yr holl gyllidwyr ymchwil yn cael eu hystyried [1]
- Cynyddu nifer y ceisiadau a gyflwynir
- Cynyddu cyfradd llwyddiant y ceisiadau.

**Cymorth a deilliannau**

Mae Dyfarniadau Datblygu Ymchwil yn darparu cyfnod yn rhydd o ddyletswyddau addysgu a dyletswyddau gweinyddu eraill er mwyn gweithredu rhaglen o weithgarwch ymchwil. Felly mae'r dyfarniadau'n rhoi cyfle i aelodau staff academaidd ddatblygu eu gallu i wneud cais am gyllid ymchwil allanol mewn ffordd na fyddai'n bosibl fel arall yn ystod y sesiwn academaidd arferol. Hefyd, bydd y sawl sy'n meddu ar ddyfarniad yn gymwys i gael mynediad i wasanaethau ymgynghorwyr datblygu allanol, gan ddarparu DPP amhrisiadwy a chynyddu cyfradd llwyddiant ceisiadau'n sylweddol. Fel arfer, mae manteisio ar y cymorth hwn yn amod o'r dyfarniad.

Yn ystod y cyfnod ymchwil disgwylir i ymchwilwyr gwblhau allbynnau diffiniedig a pharatoi ceisiadau grant. Mae'r gronfa'n un gystadleuol, ac nid yw'n hawl awtomatig, a chaniateir cyfnod o absenoldeb i ddatblygu ymchwil dim ond ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau ymchwil ac arloesi strategol y Brifysgol.

**Cymhwystra**

Croesewir ceisiadau gan bob aelod o staff sydd â chyfrifoldeb sylweddol dros ymchwil ('SSR') ar bob cam o'u gyrfa (gan gynnwys ymchwilwyr gyrfa gynnar, a staff ag amgylchiadau penodol), boed hynny mewn cyflogaeth amser llawn neu ran amser, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso eraill.

Gan mai prif ddiben y Gronfa Datblygu Ymchwil yw cynyddu cyfraddau gwneud cais am grant, fel arfer disgwylir i ymgeiswyr fod â hanes o allbynnau ymchwil cyhoeddedig sy'n addas ar gyfer y ffynonellau y maent yn gwneud cais amdanynt (e.e. fel canllaw, o leiaf ddau gyhoeddiad yn ystod y tair blynedd diwethaf). Fodd bynnag, gellir defnyddio'r gronfa i orffen ymchwil a chwblhau'r broses o gyhoeddi allbynnau a fydd yn cefnogi ceisiadau am grantiau. Gellir ei ddefnyddio hefyd er mwyn meithrin rhwydweithiau cydweithredol at ddibenion gwneud cais.

**Adnoddau**

[1] Ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys cydweithredu rhyngwladol, dylai staff hefyd ystyried rhaglen Taith Cymru, a dylai'r rhai sy'n ystyried ceisiadau i Horizon Europe hefyd ystyried rhaglen Score Cymru, gyda'r ddau ohonynt yn cynnig cefnogaeth hael. Gall ymgeiswyr hefyd ystyried Dyfarniad Cydweithredu Rhyngwladol y Brifysgol (isod).

Mae cyfanswm gwerth y gronfa wedi'i gapio ac ni all uchafswm gwerth pob dyfarniad fod yn fwy na £13,500. Fodd bynnag, nid targed yw hwn a dylai cyllidebau fod yn seiliedig ar angen, a chânt eu sgorio yn unol â hynny. Dylai'r cyllid y gofynnir amdano fod yn gymesur â'r allbynnau arfaethedig a'r cyfnod yn rhydd o ddyletswyddau addysgu a gweinyddu sydd ei angen i'w cyflawni.

Bydd staff fel arfer yn cael eu rhyddhau o'r holl ddyletswyddau eraill e.e. addysgu, rolau ar bwyllgorau, rolau Athrofa, ac ati. Fel arfer, bydd yn ofynnol i staff barhau â'u dyletswyddau goruchwylio ymchwil ôl-raddedig tra byddant ar gyfnod datblygu ymchwil. Os parheir â rolau hanfodol yn ystod cyfnod datblygu ymchwil, dylai'r dyfarniad fod ar sail pro-rata gyda datganiad clir gan y Cyfarwyddwr Academaidd ynghylch sut y caiff yr amser ymchwil ei neilltuo.

Rhaid trafod a chytuno ar bob cais gyda'r Cyfarwyddwr Academaidd perthnasol (y person sy'n gyfrifol am reoli llwyth gwaith academaidd), a rhaid ei gostio ar y sail a nodir yn nhabl cyllideb y cais. Cynghorir ymgeiswyr hefyd i drafod eu cynlluniau prosiect a / neu eu cyllidebau gydag INSPIRE cyn gwneud cais.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i gael staff cyflenwi ar gyfer addysgu a gweinyddu. Fodd bynnag, gellir gofyn am gyllid, hyd at uchafswm gwerth y dyfarniad, at unrhyw ddiben a fydd yn bodloni'r allbynnau a nodwyd (e.e. datblygu a chyflwyno cais am grant ymchwil), megis costau teithio, ffioedd cynhadledd, rhwydweithio a gweithgarwch cydweithredol, gwaith i gefnogi gweithgareddau effaith, cymorth i ysgrifennu ceisiadau, a threuliau ymchwil eraill ar gyfer cwblhau'r allbynnau cyhoeddedig.

**Adroddiad**

O fewn mis i ddiwedd y dyfarniad, bydd yn ofynnol i staff gyflwyno adroddiad ysgrifenedig byr i'r Pwyllgor Ymchwil ar y gweithgareddau a gwblhawyd a'r allbynnau ymchwil neu ddeilliannau eraill a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod o absenoldeb i wneud gwaith ymchwil. Rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan INSPIRE.

**Cyfathrebu**

Yn ystod cyfnod y dyfarniad datblygu ymchwil rhaid i'r Athrofa allu cysylltu ag aelodau o staff academaidd os oes angen. Gan mai prif ddiben y dyfarniadau yw datblygu ceisiadau am gyllid, dylai staff gydweithio'n agos ag INSPIRE i ddatblygu allbynnau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni yn y cais.

**Gwneud cais**

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

## 2. Dyfarniadau Datblygu Ymchwil Gyrfa Gynnar

Mae'r Dyfarniadau Datblygu Ymchwil Gyrfa Gynnar yn darparu cymorth hyblyg ar gyfer staff academaidd ar ddechrau eu gyrfaoedd ymchwil i ddatblygu allbynnau ymchwil ansawdd uchel, a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill a fydd yn datblygu eu proffil ymchwil a'u gallu yn y dyfodol i wneud cais am gyllid ymchwil allanol.

**Amcanion y Dyfarniadau Datblygu Ymchwil Gyrfa Gynnar yw:**

- Cefnogi ymchwilwyr newydd ac academyddion ar ddechrau eu gyrfaoedd i ddatblygu proffil ymchwil annibynnol a datblygu eu gyrfaoedd ymchwil.
- Cynyddu nifer yr allbynnau ymchwil ansawdd uchel a gynhyrchir. Gall cynigion fod ar gyfer ystod o weithgareddau fel prosiectau ymchwil safonol, arolygon a datblygiadau methodolegol. Fodd bynnag, mae yna ddisgwyliad cadarn y dylai'r rhain arwain at allbynnau ymchwil diffiniedig a chyhoeddedig.
- Cyfoethogi sgiliau a rhwydweithiau cydweithredol yr ymgeisydd. Croesewir ceisiadau ar gyfer prosiectau cydweithredol yn arbennig, yn cynnwys ymchwilwyr a rhanddeiliaid eraill o'r tu allan i'r Brifysgol.
- I ryddhau amser i gymryd rhan mewn proses wedi'i gynllunio o ymchwil sy'n ffocysu ar ddatblygiad proffesiynol. Bydd y dyfarniadau'n rhoi cyfle i ymgeiswyr gefnogi datblygiad eu sgiliau eu hunain, a dylent i gyd fod wedi'u halinio â'u cynllun datblygu ymchwil.

### Cymorth a deilliannau

Mae Dyfarniadau Datblygu Ymchwil yn darparu cyfnod yn rhydd o ddyletswyddau addysgu a dyletswyddau gweinyddu eraill neu ariannu oriau ychwanegol wedi'u contractio er mwyn gweithredu rhaglen o weithgarwch ymchwil a datblygu. Mae'r gronfa'n un gystadleuol, ac nid yw'n hawl awtomatig, a chaniateir cyfnod o absenoldeb i ddatblygu ymchwil dim ond ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau ymchwil ac arloesi strategol y Brifysgol.

Rhaid bod gan ymgeiswyr fentor a enwir yn y Brifysgol. Dylai'r mentor a gynigir fod o statws academaidd uchel a bod â diddordeb cryf ym maes ymchwil yr ymgeisydd ond fel arfer, nid cyn oruchwylydd PhD yr ymgeisydd ddylai hynny fod. Rôl y mentor yw cefnogi gwaith deiliad y grant, boed yn academaidd ac anacademaidd.

### Cymhwystra

Croesewir ceisiadau gan yr holl staff sydd â chyfrifoldeb sylweddol dros ymchwil ('SRR') ac sy'n ymchwilwyr gyrfa gynnar. Nid oes diffiniad amser caeth o statws YGG i gydnabod yr amrywiaeth gynyddol mewn taflwybrau gyrfa. Fel y cyfryw, yn rhan o'u cynnig, rhaid i ymgeiswyr gyfleu pam y dylid eu hystyried yn ymchwilydd gyrfa gynnar a sut y bydd y dyfarniad yn cael effaith y gellir ei phrofi ar ddatblygiad eu hymchwil.

### Adnoddau

Mae cyfanswm gwerth y gronfa wedi'i gapio ac ni all uchafswm gwerth pob dyfarniad fod yn fwy na £13,500. Fodd bynnag, nid targed yw hwn a dylai cyllidebau fod yn seiliedig ar angen, a chânt eu sgorio yn unol â hynny. Dylai'r cyllid y gofynnir amdano fod yn gymesur â'r allbynnau arfaethedig a'r cyfnod yn rhydd o ddyletswyddau addysgu a gweinyddu sydd ei angen i'w cyflawni.

Bydd staff fel arfer yn cael eu rhyddhau o'r holl ddyletswyddau eraill e.e. addysgu, rolau ar bwyllgorau, rolau Athrofa, ac ati. Fel arfer, bydd yn ofynnol i staff barhau â'u dyletswyddau goruchwylio ymchwil ôl-raddedig tra byddant ar gyfnod datblygu ymchwil. Os parheir â rolau hanfodol yn ystod cyfnod datblygu ymchwil, dylai'r dyfarniad fod ar sail pro-rata gyda datganiad clir gan y Cyfarwyddwr Academaidd ynghylch sut y caiff yr amser ymchwil ei neilltuo.

Rhaid trafod a chytuno ar bob cais gyda'r Cyfarwyddwr Academaidd perthnasol (y person sy'n gyfrifol am lwyth gwaith academaidd), a rhaid ei gostio ar y sail a nodir yn nhabl cyllideb y cais. Cynghorir ymgeiswyr hefyd i drafod eu cynlluniau prosiect a / neu eu cyllidebau gydag INSPIRE cyn gwneud cais.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i gael staff cyflenwi i addysgu a gweinyddu. Fodd bynnag, gellir gofyn am gyllid, hyd at uchafswm gwerth y dyfarniad, at unrhyw ddiben a fydd yn bodloni'r allbynnau a nodwyd megis costau ymchwil, costau teithio, ffioedd cynhadledd, rhwydweithio a gweithgarwch cydweithredol, gwaith i gefnogi gweithgareddau effaith, cymorth i ysgrifennu ceisiadau, a threuliau ymchwil eraill ar gyfer cwblhau'r allbynnau cyhoeddedig.

**Adroddiad**

O fewn mis i ddiwedd cyfnod y dyfarniad, bydd yn ofynnol i staff gyflwyno adroddiad ysgrifenedig byr i'r Pwyllgor Ymchwil ar y gweithgareddau a gwblhawyd a'r allbynnau ymchwil neu ddeilliannau eraill a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod o absenoldeb i wneud gwaith ymchwil.

**Cyfathrebu**

Yn ystod cyfnod y dyfarniad datblygu ymchwil rhaid i'r Athrofa allu cysylltu ag aelodau o staff academaidd os oes angen a dylai bod ganddynt gyswllt rheolaidd gyda'u mentor ymchwil.

**Gwneud cais**

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

## 3. Cyfrif Cyflymydd Effaith

Bwriad Cyfrifon Cyflymydd Effaith yw cefnogi gweithgareddau sy'n cryfhau perthynas y Brifysgol â phartneriaid allanol strategol, manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer effaith ymchwil mewn unrhyw sector, a sbarduno rhagolygon masnacheiddio yn deillio o ymchwil y Brifysgol. Wedi'u hariannu drwy Gyllid Arloesi Ymchwil Cymru, mae'r dyfarniadau'n ymrwymiad gan y Brifysgol i gefnogi staff i gychwyn cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu ac arloesi o ansawdd uchel ac i feithrin llwybr cynaliadwy o astudiaethau achos effaith newydd a straeon llwyddiant ar draws y Brifysgol.

**Mae gan y gronfa'r amcanion a ganlyn:**

- Cryfhau ymgysylltiad â defnyddwyr (partneriaid anacademaidd) er mwyn cyflymu trosi allbynnau ymchwil yn effeithiau. Bydd y rhain yn meithrin partneriaethau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac effaith, gan gynnwys ar draws disgyblaethau a sectorau.
- Adeiladu a chynnal amgylchedd a diwylliant sy'n galluogi cyfnewid gwybodaeth ac effaith effeithiol ac uchelgeisiol, gan gynnwys datblygu sgiliau, gallu a chymhwysedd o fewn Athrofeydd y Brifysgol.
- Darparu cymorth cyfnod cynnar ar gyfer symud deilliannau ymchwil ymlaen i gamau nesaf y llwybr effaith, er enghraifft: tystiolaeth o brosiectau cysyniad, masnacheiddio a dilysu marchnad.
- Gweithgareddau cefnogi i dargedu'r sector polisi, sector busnes a'r trydydd sector.
- Sbarduno gwelliant parhaus o ran effaith trwy gefnogi arloesi, galluogi 'methiant cyflym' a chofnodi dysgu trwy fecanweithiau priodol.
- Galluogi ymagweddau hyblyg ac addasol at gyfnewid gwybodaeth ac effaith, yn cynnwys y gallu i ymateb yn gyflym i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.
- Cefnogi mentrau ymgysylltu â'r gymuned a'r cyhoedd sy'n seiliedig ar ymchwil, yn lleol a/neu'n rhyngwladol, sy'n sbarduno rhyngweithio sy'n fuddiol i'r ddwy ochr o ran ymchwil drwy, er enghraifft, adfywio rhanbarthol neu weithgareddau cenhadaeth ddinesig.

**Gweithgareddau a Gefnogir**

Mae INSPIRE yn croesawu ceisiadau gan aelodau staff ymchwil a chyfnewid gwybodaeth y Brifysgol sy'n gyrru'r meysydd effaith a nodwyd yn y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. Bwriedir i'r gronfa fod yn hyblyg ac ymatebol, felly er nad yw'n rhestr yn gynhwysfawr, ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau cymwys mae:

- Secondiadau neu leoliadau staff, myfyrwyr PhD, ymchwilwyr ôl-ddoethurol a chynorthwywyr ymchwil rhwng y Brifysgol a sefydliad, cwmni neu asiantaeth partner anacademaidd o unrhyw sector, i ddatblygu partneriaethau strategol a mewnwelediadau tymor hwy. Gall secondiadau fod yn hyblyg; yn rhan-amser neu'n llawn amser, yn amrywio o ran hyd o wythnosau i fisoedd [2]. I'r perwyl hwn, mae costau prynu allan staff ar gael, a chyflog ar gyfer myfyrwyr PhD (ar gyfraddau UKRI).
- I ariannu cymrodoriaethau ac interniaethau neu gymorth ymchwil (ayb) i ganolbwyntio ar brosiectau cyfnewid gwybodaeth penodol sy'n arwain at ddeilliannau arloesi / effaith diffiniedig.

---

[2] Gall ymgeiswyr hefyd wneud cais am gymorth ychwanegol, ar gyfer secondiadau rhyngwladol, trwy Raglen Symudedd Ymchwilwyr Taith.

- Ymgysylltu â busnesau neu sefydliadau presennol mewn sectorau eraill i feithrin cysylltiadau cydweithredol newydd, neu ddyfnhau neu ehangu cysylltiadau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys drwy fynychu digwyddiadau allweddol y sector.
- Ymgysylltu â llunwyr polisi ac ymarferwyr ar unrhyw gam o'r cylch effaith ymchwil, er enghraifft drwy ddigwyddiadau, gweithdai cyfnewid gwybodaeth, datblygu pecynnau cymorth cydweithredol, gweithgarwch cydweithredol i gyd-gynhyrchu tystiolaeth, a/neu fecanweithiau i sicrhau bod y dystiolaeth honno'n cael ei defnyddio.
- Ymgysylltu â chymunedau i fynd ar drywydd agendâu ymchwil newydd, cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ddeilliannau ymchwil perthnasol, a mentrau eraill sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd a chenhadaeth ddinesig. Dylid strwythuro'r rhain mewn ffordd sy'n adlewyrchu dull cydweithredol, cyd-greadigol ac sy'n cefnogi creu effaith gref, y ceir tystiolaeth dda ohoni.
- Dadrisgio allbynnau/deilliannau ymchwil i'w defnyddio mewn sectorau eraill, gan gynnwys asesiadau o'r farchnad, datblygu pecynnau cymorth, datblygu prototeipiau ac arddangoswyr, gweithgarwch prawf o gysyniad a phrosiectau dichonoldeb sy'n canolbwyntio ar gymhwyso.
- Cymorth i feithrin perthnasau parhaus a strategol o gyd-greu a chyfnewid gwybodaeth gyda phartneriaid anacademaidd, gan gynnwys, er enghraifft, gosod y sylfeini ar gyfer ceisiadau i gynlluniau cydweithredol fel Horizon Europe neu Innovate UK, neu helpu i sicrhau cyllid o'r sector preifat, y llywodraeth, Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg a chronfeydd datblygu rhanbarthol.

**Adnoddau**

**Dyfarniad Cymorth Effaith:** Dyfarniadau llai (£1,000 - £5,000) ar gyfer cymorth effaith uniongyrchol ar gyfnodau allweddol ymchwil, er mwyn, er enghraifft:

- Casglu a dosbarthu data effaith ar gyfer prosiectau sydd â photensial clir ar gyfer effaith.
- Cynorthwyo i ysgrifennu astudiaethau achos effaith
- Datblygu cynadleddau mewnol a fforymau mewnol i hwyluso rhannu ymchwil,
- Datblygu gweithdai cyfnewid gwybodaeth, annog partneriaethau newydd,
- Datblygiad paratoadol prosiectau a syniadau newydd
- Prosiectau sy'n ymgysylltu â gwneuthurwyr polisi.

**Dyfarniad Twf Effaith:** Gellir dyrannu dyfarniadau mwy (£5,000 - £15,000) unrhyw bryd yng nghylch oes y prosiect, a rhaid ei gysylltu i Gynlluniau Effaith datblygedig ac allbynnau REF o ansawdd. Dylai'r rhain gefnogi partneriaethau sefydledig a chyflymu, dyfnhau, neu ehangu effaith dros gyfnod parhaus. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- Prynu allan addysgu i ymrwymo amser i weithgarwch effaith (e.e. ymateb i ddeddfwriaeth, cydweithio gyda defnyddwyr, a datblygu prosiectau gyda photensial effaith),
- Secondiadau neu leoliadau, tuag i mewn ac allan, sy'n cynorthwyo effaith yn arbennig ar lefel polisi,
- Prosiectau prawf cysyniad gyda'r potensial am ymchwil ac effaith ansawdd uchel,
- Prosiectau sy'n deall effaith marchnad posibl a/neu botensial masnachol.

Gellir gwneud dyfarniadau olynol dros gyfnod parhaus i gefnogi prosiectau sydd â hanes effaith y gellir ei brofi, ac a fydd yn addas i'w cyflwyno yn y REF nesaf.

**Cymhwystra**

Croesewir ceisiadau gan bob aelod o staff ‘ymchwil' a ‘staff addysgu ac ymchwil’ ar bob cam o'u gyrfa (gan gynnwys ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa, a staff ag amgylchiadau penodol), boed hynny mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso eraill.

**Adroddiad**

O fewn mis i ddiwedd y dyfarniad, bydd yn ofynnol i staff gyflwyno adroddiad ysgrifenedig byr i'r Pwyllgor Ymchwil ar y gweithgareddau a gwblhawyd a'r allbynnau ymchwil neu ddeilliannau eraill a gyflawnwyd yn ystod y dyfarniad. Rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan INSPIRE.

**Gwneud cais**

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

## 4. Dyfarniad Cydweithredu Rhyngwladol

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun Taith, sy'n darparu cymorth pwysig ar gyfer datblygu gallu cydweithredol rhyngwladol ym maes ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella sgiliau ymchwil a phroffesiynol staff a datblygu partneriaethau a chysylltiadau ymchwil rhyngwladol y Drindod Dewi Sant. Mae'r Dyfarniad Cydweithredu Rhyngwladol ar gael i gyd-gyllido gweithgarwch dan Lwybr 1, Symudedd Ymchwilwyr, a fydd yn cynorthwyo symudedd ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa ac ymchwilwyr sefydledig, dramor ac yn y wlad hon, i:

- Ymgymryd â lleoliadau neu secondiadau ymchwil, gan gynnwys cyfleoedd i rwydweithio a hyfforddi mewn sefydliad addysg uwch partner, sefydliad ymchwil, diwydiant sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygu, neu weithle perthnasol arall dramor.
- Cydweithio ar gynigion neu bapurau ymchwil ar y cyd ag ymchwilwyr mewn sefydliadau partner dramor; a/neu
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol a/neu waith maes, gan gynnwys cael mynediad i gyfleusterau, seilwaith ac offer arbenigol ledled y byd.

### Cymhwystra

Croesewir ceisiadau gan bob aelod o staff 'ymchwil' a 'staff addysgu ac ymchwil' ar bob cam o'u gyrfa (gan gynnwys ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa, a staff ag amgylchiadau penodol), boed hynny mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser, ar yr amod bod ganddynt gyfrifoldeb i ymgymryd ag ymchwil ('SRR'). Nid yw staff ar gontractau addysgu yn unig (e.e. a gyflogir fesul awr) na myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, yn gymwys i gael y dyfarniadau.

### Adnoddau

Mae cyllid ar gyfer Symudedd Ymchwilydd Taith wedi'i gyfyngu i gyfraniad i gefnogi costau teithio a chynhaliaeth cysylltiedig â symudedd ymchwilwyr. Ni ddarperir cyllid ar gyfer cyflogau neu gostau ymchwilwyr sy'n gysylltiedig ag ymchwil, gan gynnwys nwyddau traul, ffioedd ychwanegol, gorbenion neu gostau ategol eraill. Felly bydd y Dyfarniad Cydweithredu Rhyngwladol yn cyd-ariannu costau prynu allan staff gyda'r Drindod Dewi Sant (e.e. i'w rhyddhau o addysgu) lle mae angen hyn er mwyn ymgymryd â symudedd ymchwilwyr. Sylwch nad cynllun sy'n sefyll ar ei ben ei hun mo'r cynllun hwn, ac mae wedi'i gyfyngu i gyd-ariannu symudedd ymchwilwyr a ariennir drwy Taith. Darperir arian cyd-gyllido ar sail anghenion yn seiliedig ar wir gostau staff cyflenwi i gyflawni'r addysgu, ond caiff ei gapio ar 30 awr / £2000.

*Fel eithriad*, gall ymgeiswyr hefyd wneud cais am gyllid ategol lle nad yw cyfraddau uned Taith yn ddigonol i alluogi i ymweliad a gynlluniwyd fynd yn ei flaen. Dim ond ar gyfer gweithgareddau blaenoriaeth uchel y bydd dyfarniadau cyllid ategol o'r fath yn cael ei roi, lle bo enillion ar fuddsoddiad wedi'i ddiffinio'n glir (megis gwaith ar gais am grant ymchwil cydweithredol neu allbwn ymchwil) yn hytrach nag ymweliadau mwy archwiliadol ac adeiladu rhwydwaith.  Cynghorir ymgeiswyr i siarad gydag INSPIRE cyn gwneud cais.

### Y Broses Ymgeisio

Rhaid i geisiadau am y Dyfarniad Cydweithredu Rhyngwladol gael eu gwneud ar y cyd â cheisiadau i raglen Taith.

### Gwneud cais

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

### 5. Dyfarniadau Mynychu Cynhadledd (llwybr sefydledig)

Diben Dyfarniadau Mynychu Cynhadledd (llwybr sefydledig) yw datblygu'r rhwydweithiau cydweithredol a pharodrwydd staff ymchwil y Brifysgol i wneud cais am grant ac i gynyddu nifer ac ansawdd y ceisiadau grant a gyflwynir. Er mwyn cyflawni'r dibenion hyn, gwahoddir ceisiadau gan staff academaidd sy'n cyflwyno papur yn seiliedig ar raglen ymchwil barhaus. Dylai'r ymchwil hwn gynnwys allbynnau cyhoeddedig a adolygwyd gan gymheiriaid ar ffurf sydd wedi'i sefydlu'n glir yn y ddisgyblaeth berthnasol (erthyglau cyfnodolion, penodau llyfrau a monograffau fel arfer, ond hefyd allbynnau sy'n seiliedig ar arfer yn y celfyddydau). Rhaid i'r ymchwil hefyd gyd-fynd â'r themâu ymchwil ac arloesi, y cynlluniau gweithredu strategol a'r targedau yn Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Drindod Dewi Sant.

Wrth wneud cais, rhaid i staff ddangos y manteision uniongyrchol o fynychu'r gynhadledd

- Adborth ar fersiwn gynnar o'ch gwaith diweddaraf,
- Deall datblygiadau pwysig yn y maes astudio / hyrwyddo'r datblygiadau diweddaraf o'r radd flaenaf,
- Cymryd rhan mewn dadleuon lefel uchel a mireinio eich syniadau,
- Rhwydweithio a datblygu cyfleoedd a nodwyd i gydweithredu,
- Gwella CV yn ôl y gofyn ar gyfer ffynonellau cyllido penodol,
- Cyfrannu at barodrwydd i wneud cais am grant a datblygu cais am gyllid.

**Cymhwystra**

Croesewir ceisiadau gan bob aelod o staff 'ymchwil' a 'staff addysgu ac ymchwil' ar bob cam o'u gyrfa (gan gynnwys ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa, a staff ag amgylchiadau penodol), boed hynny mewn cyflogaeth llawn amser neu ran amser, sydd â chyfrifoldeb i ymgymryd ag ymchwil ('SRR'). Nid yw staff ar gontractau addysgu yn unig (e.e. a gyflogir fesul awr) na myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, yn gymwys i gael y dyfarniadau. Mae dyfarniadau wedi'u cyfyngu i un yr aelod o staff mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodol.

**Adnoddau**

Mae cyfanswm gwerth y gronfa wedi'i gapio ac ni all uchafswm gwerth pob dyfarniad fod yn fwy na £750 ar gyfer cynadleddau'r DU a £1,500 ar gyfer rhai tramor. Mae £200 ychwanegol ar gael yn y naill achos neu'r llall i gefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (e.e. ar gyfer gofal plant ychwanegol) neu amgylchiadau personol eraill. Gall y cyllid dalu am ffioedd cynhadledd, teithio a chynhaliaeth, ar y cyfraddau a nodir yn rheoliadau ariannol y Drindod Dewi Sant. Er nad oes angen i bapur gael ei dderbyn yn bendant yn ystod y camau gwneud cais a chymeradwyo, caiff dyfarniadau eu gwneud ar sail dros dro a rhoddir cymeradwyaeth derfynol i ryddhau cyllid wedi i'r papur gael ei dderbyn.

**Adroddiad**

Rhaid i ddeiliaid dyfarniadau gyflwyno adroddiad byr ar y gynhadledd ac unrhyw ddeilliannau heb fod yn hwyrach na mis ar ôl ei mynychu.

**Gwneud cais**

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

### 6. Dyfarniadau Mynychu Cynhadledd Gyrfa Gynnar

Diben y Dyfarniad Mynychu Cynhadledd Gyrfa Gynnar yw darparu cyfleoedd i staff Ymchwil Gyrfa Gynnar adeiladu eu rhwydweithiau academaidd a dysgu'n uniongyrchol am ddatblygiadau ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn eu meysydd. Yn wahanol i'r llwybr sefydledig, ni fydd angen i ymgeiswyr ddarparu papur, ond dylent allu arddangos cyfle  clir i ddatblygu drwy fynychu'r digwyddiad. Felly, dylai ymgeiswyr ddarparu manylion eu gweithgaredd ymchwil hyd yma, eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac arddangos sut y bydd mynychu'r gynhadledd yn gwneud cyfraniad sylweddol i wireddu'r rhain.

Wrth wneud cais, rhaid i staff ddangos y manteision uniongyrchol o fynychu'r gynhadledd[3], megis:

- Rhwydweithio a datblygu cyfleoedd a nodwyd i gydweithredu
- Magu hyder a datblygu proffil ymchwil
- Deall datblygiadau pwysig yn y maes astudio / hyrwyddo'r datblygiadau diweddaraf o'r radd flaenaf
- Cymryd rhan mewn dadleuon lefel uchel a mireinio eich syniadau
- Gwella CV yn ôl y gofyn ar gyfer ffynonellau cyllido penodol
- Cyfrannu at barodrwydd i wneud cais am grant a datblygu cais am gyllid.

**Cymhwystra**

Croesewir ceisiadau gan bob aelod o 'staff addysgu ac ymchwil' a staff ymchwil sy'n ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa ac sydd â chyfrifoldeb i ymgymryd ag ymchwil ('SRR'). Nid oes diffiniad amser caeth o statws YGG i gydnabod yr amrywiaeth gynyddol mewn taflwybrau gyrfa. Fel y cyfryw, yn rhan o'u cynnig, rhaid i ymgeiswyr gyfleu pam y dylid eu hystyried yn ymchwilydd gyrfa gynnar a sut y bydd y dyfarniad yn cael effaith y gellir ei phrofi ar ddatblygiad eu hymchwil. Nid yw staff ar gontractau addysgu yn unig (e.e. a gyflogir fesul awr) na myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, yn gymwys i gael y dyfarniadau. Mae dyfarniadau wedi'u cyfyngu i un yr aelod o staff mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodol.

**Adnoddau**

Mae cyfanswm gwerth y gronfa wedi'i gapio ac ni all uchafswm gwerth pob dyfarniad fod yn fwy na £750 ar gyfer cynadleddau'r DU a £1,500 ar gyfer rhai tramor. Mae £200 ychwanegol ar gael yn y naill achos neu'r llall i gefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (e.e. ar gyfer gofal plant ychwanegol) neu amgylchiadau personol eraill.   Gall y cyllid dalu am ffioedd cynhadledd, teithio a chynhaliaeth, ar y cyfraddau a nodir yn rheoliadau ariannol y Drindod Dewi Sant.

**Adroddiad**

Rhaid i ddeiliaid dyfarniadau gyflwyno adroddiad byr ar y gynhadledd ac unrhyw ddeilliannau heb fod yn hwyrach na mis ar ôl ei mynychu.

**Gwneud cais**

[3] Defnyddir y term cynhadledd yn yr ystyr ehangaf, a gall gynnwys fforymau ymchwil eraill megis symposia, colocwia, seminarau, digwyddiadau rhwydwaith ac ati.

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

### 7. Cronfa Sgiliau Ymchwilwyr

Yn 2022, arwyddodd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Goncordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr a, thrwy wneud hynny, gwnaeth addo i ddarparu'r gefnogaeth datblygu strwythuredig sydd ei hangen er mwyn i staff ymchwil ffynnu. Mae INSPIRE yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu'r Concordat, gan weithio'n agos gydag Adnoddau Dynol, yr Athrofeydd a gwasanaethau proffesiynol eraill. Un o brif ymrwymiadau'r Concordat yw neilltuo 10 diwrnod y flwyddyn ar gyfer staff â Chyfrifoldeb Sylweddol dros Ymchwil ('SSR') i ymgymryd â gweithgareddau datblygu ymchwilydd. Mae'r gronfa hon yn fecanwaith allweddol i gefnogi'r ymrwymiad hwnnw.

Ochr yn ochr â chyfleoedd datblygu craidd wedi'u mewnosod (yn dod yn fuan), mae'r Gronfa Sgiliau Ymchwilwyr yn darparu llwybr ar gyfer cyfleoedd mwy arbenigol neu ad hoc. Gall rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Cyllid i gefnogi cyngor gyrfaoedd penodol i ymchwil
- Hyfforddiant arwain ymchwil
- Meddalwedd arbenigol neu hyfforddiant arall
- Cefnogi digwyddiadau ymchwil
- …a llawer mwy.

Sylwch fod mynychu cynadleddau hefyd yn cael ei ystyried yn weithgaredd datblygu ymchwilwyr allweddol ond caiff ei gefnogi ar wahân mewn RIAP trwy linynnau 5 a 6 (gweler uchod).

#### Cymhwystra

Mae pob aelod o staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol dros Ymchwil ('SRR') yn gymwys i wneud cais am gymorth gan y Gronfa Sgiliau Ymchwilwyr. Dylai ymchwilwyr sicrhau bod unrhyw geisiadau wedi'u cysylltu â'r nodau a restrir yn eu cynllun ymchwilydd unigol. Bydd ceisiadau gan academyddion nad oes ganddynt gyfrifoldeb sylweddol dros ymchwil fesul cais ond mae'n rhaid bod ganddynt lwybr clir â chynllun i statws SRR a gefnogir gan eu Rheolwr Llinell a Chyfarwyddwr Academaidd.

#### Adnoddau

Mae cyfanswm gwerth y gronfa wedi'i gapio ac ni all uchafswm gwerth pob dyfarniad fod yn fwy na £1,500. Lle bo angen teithio, mae £200 ychwanegol ar gael i gefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (e.e. ar gyfer gofal plant ychwanegol) neu amgylchiadau personol eraill. Gall y cyllid dalu am ffioedd, teithio a chynhaliaeth, ar y cyfraddau a nodir yn rheoliadau ariannol y Drindod Dewi Sant.  Dylid logio pob gweithgaredd datblygu yn y cynllun ymchwilydd unigol (yn dod yn fuan).

#### Gwneud cais

Mae galwadau, ffurflenni cais, terfynau amser a meini prawf sgorio ar gael ar wefan Y Drindod.

## 8. Llysgennad Effaith ac Ymgysylltu

Dan arweiniad INSPIRE, mae'r Llysgennad Effaith ac Ymgysylltu, yn rôl drawsadrannol newydd a fydd yn uno 'ysgogwyr newid' y Brifysgol yn ffurfiol ag INSPIRE. Mae INSPIRE yn uned cymorth broffesiynol craidd sy'n gyfrifol am ysgogi ymchwil, arloesi, masnacheiddio, menter, ac ymgysylltu dinesig ar draws y Brifysgol.

Bydd Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu yn derbyn £2,400 y flwyddyn yn ychwanegol ar ben eu cyflog presennol. Yn ogystal, bydd gan Lysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu fynediad i gyllideb datblygu o fewn INSPIRE i gefnogi'r gweithgareddau a amlinellir yn eu cais i fod yn llysgennad. Bydd y rôl newydd hon yn ategu dyletswyddau'r rôl academaidd/ broffesiynol barhaol a gyflawnir gan y Llysgennad penodedig.

### Penodiad

Ym mhob blwyddyn academaidd 22/23, 23/24 a 24/25, bydd hyd at ugain aelod o staff yn cael eu penodi i rôl llysgennad dwy flynedd, rôl strategol a fydd yn ategu un o bedair isadran weithredu INSPIRE. I ddechrau, disgwylir y bydd y rolau newydd hyn yn cael eu dosbarthu ar draws pedwar piler INSPIRE fel a ganlyn:

- **Is-adran Ymchwil:** Rhagwelir y bydd pump 'Llysgennad (Ymchwil) Effaith ac Ymgysylltu' yn cefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi INSPIRE.
- **Is-adran Masnacheiddio:** Rhagwelir y bydd deg 'Llysgennad (Masnacheiddio) Effaith ac Ymgysylltu' yn cefnogi gweithgareddau masnacheiddio ac eiddo deallusol INSPIRE.
- **Is-adran Menter:** Rhagwelir y bydd tri 'Llysgennad (Menter) Effaith ac Ymgysylltu' yn cefnogi gweithgareddau entrepreneuraidd, cychwyn busnes, deillio a mewn-ddeillio INSPIRE.
- **Is-adran Ymgysylltu Dinesig:** Rhagwelir y bydd dau 'Lysgennad (Ymgysylltu Dinesig) Effaith ac Ymgysylltu' yn cefnogi gweithgareddau cenhadaeth ddinesig INSPIRE.

### Amcanion

Bydd y trefniant cydweithredol newydd hwn rhwng INSPIRE ac adrannau amrywiol y Brifysgol, trwy aelodau allweddol o staff a fydd yn cael eu gwobrwyo â rôl Llysgenhadon, yn hanfodol er mwyn cyflawni Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol, wrth i ni anelu at:

- Feithrin capasiti a gwydnwch ychwanegol i gefnogi'r Brifysgol i arallgyfeirio'i ffrydiau incwm a lleihau dibyniaeth y Brifysgol ar ffrydiau incwm craidd traddodiadol (h.y. ffioedd dysgu).
- Cefnogi ymhellach weithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth y Brifysgol sydd yn eu tro'n cyfrannu at dwf a chynhyrchiant economaidd Cymru.
- Ymgysylltu'n strategol a chydweithio â mwy o fusnesau, sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd yn ehangach - er mwyn cefnogi'r ddau bwynt uchod.
- Cefnogi datblygiad parhaus astudiaethau achos effaith y Brifysgol ac allbynnau eraill cymwys i'w cyflwyno yn rhan o ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn y dyfodol yn 2027/28.

### Gwneud cais

INSPIRE

Bydd gwahoddiadau i wneud cais yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn gan dîm Adnoddau Dynol Y Drindod Dewi Sant. I gael rhagor o wybodaeth siaradwch gyda, Gary Clifford, Cyfarwyddwr Gweithredol Masnacheiddio. INSPIRE.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Bydd gan INSPIRE, wrth weithredu agweddau gweithredol y Rhaglen Cyflymydd Ymchwil ac Effaith, gyfrifoldeb i ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Felly, bydd yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gysylltiedig â’r broses ar gyfer cymeradwyo ceisiadau i sicrhau nad yw'r meini prawf ar gyfer gwneud cais am absenoldeb yn rhoi unrhyw grwpiau o staff dan anfantais.

**Cysylltwch â ni**

Rhedir RIAP gan Is-adran Datblygu Ymchwil INSPIRE. Os oes gennych ddiddordeb mewn gweud cais, neu os oes gennych gwestiwn, siaradwch gyda:

- **Dr Matt Briggs.** Pennaeth Datblygu Ymchwil.
- **Dr Laura Stowe-Evans**. Swyddog Gweithredol Datblygu Ymchwil
- **Gareth Thomas**. Swyddog Gweithredol Datblygu Ymchwil.
- **Gary Clifford**. Cyfarwyddwr Gweithredol Masnacheiddio